ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	13 Mehefin 2018
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Howard Birnie trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706431
PWNC:	Cais i Hysbysebu ar Gerbydau Hacni

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Ystyried cais gan Mr William Curry, sydd yn Berchennog Cerbydau Hacni sefydledig, am gymeradwyaeth i arddangos arwyddluniau ar ei gerbydau trwyddedig.

1.2 Egluro gofynion y polisi o ran y gorffeniad paent ar gyfer cerbydau hacni.

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn unol â'r awdurdod dirprwyedig, gall Swyddogion gymeradwyo ceisiadau o'r fath yn unol â'r polisi cyfredol.

2.2 Er bod gan Swyddogion awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo ceisiadau fel y disgrifiwyd ym mhwynt 2.1 uchod, mae'r cais penodol hwn wedi peri pryder i swyddogion felly nid yw wedi'i gymeradwyo ar lefel swyddog.

2.3 Ar ôl derbyn cais o'r fath, gofynnir i'r Aelodau ystyried y manylion o fewn yr adroddiad hwn i'w cynorthwyo wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cais hwn.

3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Mr Curry wedi cysylltu â'r Cyngor gyda'r bwriad o wneud cais am ganiatâd i arddangos arwyddlun mawr o Fflag Cymru ar fonedi ei gerbydau trwyddedig, gweler Atodiad A. Sylwch mai lluniau wedi'u creu gan gyfrifiadur yw'r rhain ac nid ffotograffau o'r cerbydau fel ag y maent ar hyn o bryd.

4.2 Mae manyleb cerbyd a pholisi cyfredol y Cyngor (5.6, 6.2 a 7.6) yn nodi'r gofynion derbyniol o ran paent, arwyddion, hysbysebu a chynllun lliwiau Cerbydau Hacni. Gweler detholiadau perthnasol o'r adrannau hyn yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

5.0 YSTYRIAETH

5.1 Yn gyntaf oll, dylai'r Aelodau nodi fod adran 6.2.2 yn ymddangos yn anghyflawn wrth ei chymharu ochr yn ochr â gofynion polisi tebyg ar gyfer cerbydau hurio preifat. Yn benodol, y gofyniad ar gyfer cerbyd hurio preifat yw, yn 3.8.2, "Bydd gan y paent orffeniad proffesiynol ac yn un lliw cyson ar draws corff cyfan y cerbyd." Efallai y dylai Aelodau ystyried a oedd bwriad i'r gofyniad hwn gael ei ailadrodd yn y manyleb cerbyd hacni.

5.2 Mae Swyddogion yn dymuno tynnu sylw'r Aelodau at y gofynion yn ymwneud ag Arwyddion a Hysbysiadau. Er y gellir arddangos enw'r cwmni/ rhif ffôn ar ochr neu gefn cerbyd, ni chaniateir unrhyw arwyddion, arwyddlun neu hysbysiadau eraill y tu mewn na thu allan i'r cerbyd heb ganiatâd ysgrifenedig penodol gan y Cyngor.

5.3 Bydd Aelodau'n dymuno ystyried a yw pob math o arwyddluniau chwaraeon ac arwyddion gwladgarol yn dderbyniol i'w harddangos ar gerbydau trwyddedig yn gyffredinol. Er enghraifft, efallai y ceir cais i arddangos teyrngarwch i dîm chwaraeon neu wlad, ac y byddai hynny wedyn yn denu sylw dieisiau, neu'n cynyddu'r risg o ymddygiad troseddol.

5.4

Er nad yw cais Mr Curry y tu allan i'r gofynion y manylwyd arnynt uchod yn awtomatig, mae Swyddogion o'r farn y dylid rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y mater yn yr achos hwn.

5.5 Pan ystyriodd yr Aelodau gais i arddangos arwyddluniau llai yn ystod eu Cyfarfod ym mis Medi 2017, ***PENDERFYNWYD -***

(a) cymeradwyo'r cais i arddangos arwyddlun fel y gwnaed cais amdano, ac

(b) ystyried ceisiadau i arddangos arwyddluniau yn y dyfodol yn unigol yn ôl eu rhinweddau eu hunain.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –
"Ar ôl ystyried yr adroddiad a chyflwyniad yr Ymgeisydd, roedd yr Aelodau'n fodlon ei bod hi'n briodol i'r arwyddluniau gael eu harddangos ar y cerbyd fel y ceisiwyd. Cydnabuwyd y gallai rhai arwyddluniau o'r math hyn ddenu sylw dieisiau ond, yn ôl yr Aelodau, nid oedd newid i'r polisi'n angenrheidiol ac y dylai pob cais gael ei benderfynu ar ei rinwedd ei hun."

6.0 **ARGYMHELLION**

6.1 Bod yr Aelodau'n ystyried y cais i arddangos arwyddluniau ac yn dewis un o'r opsiynau canlynol:

- cymeradwyo'r cais fel y gwnaed cais amdano, neu
- gwrthod y cais.

6.2 Bod yr Aelodau'n ystyried sylwadau'r gofyniad polisi ym mhwynt 5.1 uchod a chadarnhau'r hyn a fwriedir:

- Bydd gan y paent orffeniad proffesiynol; neu
- Bydd gan y paent orffeniad proffesiynol ac yn un lliw cyson ar draws corff cyfan y cerbyd.